# Brechlyn COVID-19:


## Diweddariad ar y rhaglen 1 Mawrth 2021

## Trosolwg

Ein huchelgais yw diogelu ein poblogaeth yng Nghaerdydd a'r Fro mor gyflym â phosibl drwy frechu ar gyfer COVID-19. Mae rhaglen frechu ar raddfa fawr o'r fath yn gofyn am ddull sy'n cynnwys llawer o agweddau gwahanol a model darparu cymysg. Mae'r model yng Nghaerdydd a'r Fro yn cynnwys timau symudol, canolfannau brechu torfol, practisau meddygon teulu a 'hybiau' gofal iechyd.

## Darpariaeth Weithredol:

Hyd yma, rydym wedi brechu 145,065 o bobl yn y carfannau blaenoriaeth fel y'u pennwyd gan JCVI, sef 29% o gyfanswm ein poblogaeth.




Rydym yn parhau i wahodd grŵp blaenoriaeth 5, pobl rhwng 65-69 oed, i'w Practis Meddyg Teulu, a grŵp blaenoriaeth 6, pobl rhwng 16-64 oed sydd â chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes a gofalwyr di-dâl, a Grŵp Blaenoriaeth 7, pobl rhwng 60-64 oed, i Ganolfan Brechu Torfol.

Rydym bellach wedi derbyn y canllaw JCVI ar gyfer gofalwyr di-dâl sy'n gymwys i dderbyn eu brechlyn COVID-19. Bydd y rhai hynny sydd wedi'u nodi yn dechrau derbyn apwyntiad drwy'r post yn un o'n Canolfannau Brechu Torfol. Bydd ffurflen ar-lein hefyd ar gael yr wythnos hon er mwyn i ofalwyr di-dâl gofrestru eu manylion gyda ni, fel y gallwn drefnu eu hapwyntiad. Byddwn yn darparu rhif ffôn i unrhyw un a hoffai gymorth yn cwblhau'r ffurflen hon.

# Gwahoddiad i gael brechlyn

Rydym yn gwahodd grwpiau blaenoriaeth yn unol â chanllaw JCVI. Mae'r tabl isod yn dangos ein cynllun presennol mewn perthynas â phob grŵp.

| | |
|---|---|
| **Grŵp Blaenoriaeth 1** preswylwyr a staff Cartrefi Gofal i Oedolion | Wedi'u brechu gan ein Timau Brechu Symudol. Mae'r ail ddosau wedi'u hamserlenni 8 wythnos yn ddiweddarach.<br><br>Mae'n bosibl bod rhai staff cartrefi gofal wedi'u brechu yn un o'n canolfannau a chysylltir â hwy yn awtomatig ar gyfer eu hail ddos. |
| **Grŵp Blaenoriaeth 2** 80 oed ac yn hŷn a staff iechyd a gofal cymdeithasol ar y rheng flaen | Mae pawb yn y grŵp hwn wedi cael cynnig apwyntiadau.<br><br>**Os ydych chi'n 80 oed ac yn hŷn** a heb gael gwahoddiad i dderbyn eich dos CYNTAF, cysylltwch â'ch Practis Meddyg Teulu.<br><br>Bydd Practisiau Meddygon Teulu yn cysylltu â chleifion yn uniongyrchol i gael eu hail ddos felly byddwch yn amyneddgar.<br><br>**Staff iechyd a gofal cymdeithasol ar y rheng flaen** - os nad oes neb wedi cysylltu â chi ynglŷn â'ch dos CYNTAF, e-bostiwch cvuhb.massimms@wales.nhs.uk<br><br>Caiff yr ail ddos ei amserlennu'n awtomatig a byddwch chi'n derbyn neges destun. Os ydych chi'n derbyn neges yn canslo, caiff apwyntiad newydd ei anfon atoch dros neges destun.<br>Os nad ydych chi'n derbyn neges yn canslo, mae dyddiad eich apwyntiad gwreiddiol yn aros yr un fath. |
| **Grŵp Blaenoriaeth 3** rhwng 75-79 oed | Mae pawb yn y grŵp hwn wedi cael cynnig apwyntiadau gan eu Practis Meddyg Teulu.<br><br>Os nad ydych chi wedi cael gwahoddiad i dderbyn eich dos CYNTAF, cysylltwch â'ch Practis Meddyg Teulu.<br><br>Bydd Practisiau Meddygon Teulu yn cysylltu â chleifion yn uniongyrchol i gael eu hail ddos felly byddwch yn amyneddgar. |

| | |
|---|---|
| **Grŵp Blaenoriaeth 4** rhwng 70-74 oed ac yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol | Mae pawb yn y grŵp hwn wedi cael cynnig apwyntiadau mewn Canolfan Brechu Torfol.<br><br>Os nad ydych chi wedi cael gwahoddiad i dderbyn eich dos CYNTAF, cysylltwch â'r ganolfan trefnu apwyntiadau drwy ffonio 029 2184 1234<br><br>Caiff yr ail ddos ei amserlennu'n awtomatig a byddwch chi'n derbyn neges destun a llythyr.<br><br>Os ydych chi'n derbyn neges yn canslo, caiff apwyntiad newydd ei anfon atoch dros neges destun. Os nad ydych chi'n derbyn neges yn canslo, mae dyddiad eich apwyntiad gwreiddiol yn aros yr un fath. |
| **Grŵp Blaenoriaeth 5** rhwng 65-69 oed | Mae aelodau o'r grŵp hwn yn cael eu gwahodd gan Bractisiau Meddygon Teulu ar hyn o bryd i gael eu dos cyntaf.<br><br>Bydd practisiau yn cysylltu wrth iddynt dderbyn cyflenwadau o Oxford AstraZeneca. Byddwch yn amyneddgar ac arhoswch iddyn nhw gysylltu â chi. |
| **Grŵp Blaenoriaeth 6** pobl rhwng 16-64 oed sydd â chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes a gofalwyr di-dâl | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cysylltu ag aelodau o'r grŵp hwn ar hyn o bryd i fynd i Ganolfan Brechu Torfol.<br><br>Mae pobl sydd â chyflwr iechyd sy'n bodoli eisoes yn unol â chanllaw JCVI neu ofalwyr di-dâl wedi'u hychwanegu at grŵp blaenoriaeth 6.<br><br>Caiff yr apwyntiadau hyn eu hamserlennu'n awtomatig ac fe gewch chi lythyr drwy'r post.<br><br>Byddwch yn amyneddgar wrth i ni weithio drwy'r grŵp hwn.<br><br>Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn rhoi gwybod am ganllawiau pellach o ran sut i gofrestru os nad ydych chi wedi eich gwahodd ac rydych chi'n perthyn i'r grŵp hwn yn eich barn chi. |
| **Grŵp Blaenoriaeth 7** rhwng 60-64 oed | Bydd y Bwrdd Iechyd yn cysylltu â'r grŵp hwn i fynd i Ganolfan Brechu Torfol.<br><br>Byddwch yn amyneddgar ac fe gewch chi lythyr apwyntiad drwy'r post. |
| **Grŵp Blaenoriaeth 8 rhwng 55-59 oed** | Byddwn yn rhoi gwybod pryd y caiff y grŵp hwn wahoddiad maes o law unwaith i ni gwblhau brechu'r mwyafrif o grwpiau 5-7. Byddwch yn amyneddgar a chysylltir â chi'n uniongyrchol |

| | |
|---|---|
| **Grŵp Blaenoriaeth 9** rhwng 50-54 oed | Byddwn yn rhoi gwybod pryd y caiff y grŵp hwn wahoddiad maes o law unwaith i ni gwblhau brechu'r mwyafrif o grwpiau 5-7. Byddwch yn amyneddgar a chysylltir â chi'n uniongyrchol. |
| **Grŵp Blaenoriaeth 10** gweddill y boblogaeth | Byddwn yn rhoi gwybod pryd y caiff y grŵp hwn wahoddiad maes o law unwaith i ni gwblhau brechu'r mwyafrif o grwpiau 5-7. Byddwch yn amyneddgar a chysylltir â chi'n uniongyrchol. |

## Cyflawniadau allweddol o wythnos diwethaf

- Gwnaethom gynyddu ail ddosau'r brechlyn Pfizer, gan ddarparu oddeutu 1,400 o ddosau bob dydd.
- Rydym bellach wedi brechu dros 60% o bobl rhwng 65-69 oed mewn practisau meddygon teulu.

## Wythnos nesaf

- Yn dilyn gostyngiad a gynlluniwyd yn y cyflenwad o'r brechlyn dros y pythefnos diwethaf o ganlyniad i'r gadwyn gyflenwi genedlaethol, bydd y cyflenwad o'r brechlyn yn cynyddu eto, a disgwylir dosbarthiad sylweddol o'r brechlyn Oxford Astra Zeneca yr wythnos nesaf (8 Mawrth), gan ein galluogi i gyflymu'r brechlynnau ymhellach.
- Cynllunnir diwrnod i'r cyfryngau ym mhob un o'n Canolfannau Brechu Torfol yfory (2 Mawrth), a fydd yn cynnig cyfle pellach i'r cyfryngau broffilio'r Rhaglen Brechu Torfol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae hyn yn cyd-fynd â chyflawni'r garreg filltir o frechu miliwn o bobl yng Nghymru.
- Bydd Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Lorna Bennett yn mynychu gweminar gyda Chyngor Caerdydd i ateb rhai cwestiynau cyffredin mae'r cyngor yn eu derbyn gan breswylwyr ynghylch y rhaglen frechu.
- Bydd Practisau Meddygon Teulu yn parhau i gynnig apwyntiadau i grŵp blaenoriaeth 5, rhwng 65-69 oed, a disgwylir y caiff dros 4,000 o frechlynnau eu darparu eto o fewn gofal sylfaenol yr wythnos hon. Maent ar y trywydd iawn i gwblhau'r dosau cyntaf ar gyfer grŵp blaenoriaeth 5 erbyn diwedd mis Mawrth.
- Bydd ein Canolfannau Brechu Torfol ym Mhentwyn a'r Barri yn darparu'r brechlyn Oxford Astra Zeneca i grŵp blaenoriaeth 6, pobl rhwng 16-64 oed sydd â chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes, y gallent fynd yn sâl iawn o ganlyniad i COVID-19, a gofalwyr di-dâl.
- Bydd ail ddosau'r brechlyn Pfizer yn parhau i gael eu darparu yn y Ganolfan Brechu Torfol yn y Sblot a'r clinig lloeren yn YALI.

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives
DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE
GIG CYMRU
NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

# Y Cyfryngau Cymdeithasol



















Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan.